ffotogallery

rhaglen y gaeaf

david levinthal

ffotoannual

[illegible] ein hunain

[illegible] mewn amser

clement cooper



hydref - mawrth 95/96

## david levinthal: goleuni tywyll

*14 hydref - 18 tachwedd 1995*

Daeth David Levinthal i'r amlwg yn ystod y 1980au fel un o'r pwysicaf o blith artistiaid cyfoes Americanaidd sydd yn gweithio â ffotograffiaeth. Fel llawer o'i genhedlaeth, mae lluniau Levinthal yn gwrthod y syniad o ddal realaeth; yn hytrach, mae'n creu ac ail-ddyfeisio'r byd yn y stiwdio. Mae ei ffotograffau'n ffurfio tablaeux lliwgar; ynddynt mae ffigurau tegan yn ail-actio golygfeydd sydd yn ddibynnol iawn ar ddelweddau Hollywood o America fytholegol. Drwy chwarae â goleuni a ffocws, mae Levinthal yn lapio'r cyfansoddiadau theatrig bychain hyn mewn planau o liwiau a chysgodion dwfn sydd - fel ffilm- yn dynwared ac yn dramateiddio realaeth: yn ei waith ef, try'r byd yn ffuglen sydd yn aflonyddu arnom, yn cyfuno ffantasïau plentyndod â hunllef yr oedolyn. Arddangosfa Photographers Gallery.



## ffotoannual 1995

*25 tachwedd - 23 rhagfyr 1995*

Yn bymtheg mlwydd oed bellach, mae'r dyddiad rheolaid hwn ar galendr Ffotogallery yn faromedr cyfleus i gyflwr ffotograffiaeth annibynnol yng Nghymru, yn adlewyrchu amrywiaeth o ddiddordebau ffotograffig, yn cynnwys *reportage* ddogfennol, portreadaeth a ffotograffiaeth wneuthuredig. Mae'r arddangosfa yn agored i holl aelodau Ffotogallery: gallant gynnig hyd at bedwar gwaith a chael o leiaf un ohonynt wedi ei ddethol, gan ffigur blaenllaw o fyd y celfyddydau. Eleni, Colin Ford, Cyfarwyddydd Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru fydd detholydd Ffotoannual 1995. Roedd Colin yn Geidwad yn yr Amgueddfa Ffotograffiaeth, Ffilm a Theledu yn Bradford yn flaenorol, ac mae ganddo gysylltiad maith a disglair â maes ffotograffiaeth. Yr ydym yn ddiolchgar unwaith eto i Leeds Photovisual am barhau i noddi'r arddangosfa hon.

## darlunio ein hunain: plant ysgol yn y ffrâm

*6 ionawr - 3 chwefror 1996*

Ffrwyth prosiect a sefydlwyd gan NAGE, y Gymdeithas ar gyfer Addysg Orielau, yw'r arddangosfa hon, fel rhan o gynllun newydd a dyfeisgar y gymdeithas, **Dewis Celf**, sydd yn annog pob disgybl ysgol uwchradd yn eu nawfed blwyddyn i ddewis celf yn llythrennol ar gyfer TGAU, drwy gynnig profiad uniongyrchol ysbrydoledig o gelfyddyd. Mae *Darlunio Ein Hunain* yn dwyn ynghyd ddetholiad o ddelweddau ffotograffig a gynhyrchwyd gan grwpiau o blant o Ysgol Lewis i Ferched, Morgannwg

Ganol, ac Ysgol Uwchradd Cantonian, Caerdydd. Mae'r gweithiau, creadigaethau stiwdio yn cynnwys gwrthrychau bywyd llonydd a modelau, yn edrych yn thematig ar y portread, ac fe'u hysbrydolwyd gan beintiadau a cherfluniau gwreiddiol o'r Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol yng Nghaerdydd yn ogystal â llu o enghreifftiau o faes ffotograffiaeth fodern. Yr ydym yn dra diolchgar i Dave Daggers, y ffotograffydd a gofnododd y gweithiau gorffenedig mewn ysgolion a chyflwyno cyfres o ddarlithiau ar ffotograffiaeth fodern i fwy na 400 o blant ysgol.

## celfyddyd mewn amser: seton smith

*8 chwefror - 17 chwefror 1996*

Daw Celfyddyd mewn Amser, tymor rhyngwladol byr o gelfyddyd aml-gyfrwng yng Nghaerdydd a drefnwyd gan Grey Suit ac Athrofa Addysg Uwch Caerdydd, i Ffotogallery gyda chyflwyniad o waith yr artist Americanaidd o fri, Seton Smith, sydd yn byw a gweithio ym Mharis yn awr. Mae'r ffotograffau mawr a gyflwynir ganddi yn fynych yn gysylltiedig â phensaernïaeth, â dodrefn neu â natur ar ei gwedd fwyaf bensaernïol. Mae llawer o'r printiau hyn allan o ffocws neu'n dadsenio ag effeithiau ôl-ddelwedd, gan greu eiconau sydd yn dirgrynu a thywynnu â hanner-bywyd. Mae ei harddangosfeydd niferus yn cynnwys dangos gwaith yn y Musée d'Art Moderne de la Ville de Paris ac yn Amgueddfa Neuberger, Efrog Newydd.

## clement cooper: ni

*24 chwefror - 30 mawrth 1996*

Defnyddir y geiriau Saesneg 'half-caste' a 'half-breed' yn aml i ddisgrifio pobl o gefndir hil-gymysg. Maent yn deillio o ofn ymhlith



cymunedau du a gwyn bod cymysgu'r hiliau'n niweidio hunaniaeth ddiwylliannol. Gan gymryd y pwnc llosg hwn fel man cychwyn, aeth Clement Cooper, ffotograffydd ifanc o dras cymysg, ati i gofnodi'n dosturiol nifer o'i gydnabod, pobl y cyfarfu â hwy ar ymweliadau helaeth â phedair o ddinasoedd gwledydd Prydain ym 1995, sef

Lerpwl, Bryste, Caerdydd a'i dre enedigol ei hun, Manceinion. Mae'r arddangosfa ganlynol yn dwyn ynghyd nifer o bortreadau grymus o unigolion Affro-Garibïaidd/Prydeinig rhwng 5 a 30 mlwydd oed, ynghyd â thrac sain CD 40-munud a luniwyd gan y ffotograffydd: mae hwnnw'n cynnwys hanes llafar sydd yn datgelu amrywiaeth teimladau a meddyliau testunau'r ffotograffydd. Cywaith yw'r arddangosfa hon yn lleol rhwng Ffotogallery, Canolfan Hanes a Chelfyddydau Butetown ac Ymddiriedolaeth Celfyddydau Bae Caerdydd, ac ar lefel Brydeinig, gyda Oriel Open Eye/Lerpwl, Oriel Viewpoint/Salford, ac Autograph, Cymdeithas y Ffotograffwyr Du/ Llundain.

## siop lyfrau ffotogallery

*ar agor mawrth - sadwrn 10.30am - 5.30pm*

Mae siop lyfrau Ffotogallery, y siop lyfrau ffotograffig orau y tu allan i Lundain ym marn llawer, yn cyflenwi cyhoeddiadau ffotograffig i nifer o ysgolion, colegau a llyfrgelloedd ledled gwledydd Prydain, gan gynnig gostyngiad cystadleuol i sefydliadau addysg. Ein nod yw cynnig gofal cwsmer heb ei ail yn y ddinas, gan gynnwys gwasanaeth archebu drwy'r post chwim ac effeithlon, gwasanaeth chwilio am lyfrau allan-o-brint ardderchog, a'r gallu i ddarganfod manylion am bob llyfr mewn print nid yn unig yn y DU ond yn America ac Ewrop hefyd, a'u harchebu. Gellir archebu llyfrau dros y ffôn, talu amdanynt â cherdyn credyd, a'u derbyn gyda'r troad. Am fanylion pellach, ffoniwch Marc Arkless neu Rachel Bardett ar (01222) 665377.

## cwrs ffotograffiaeth a gweithdai

*drwy gydol y flwyddyn*

Gan gynnig amgylchedd cefnogol a chyfeillgar i grwpiau bychain ac unigolion, mae Ffotogallery bellach yn rhedeg amrywiaeth o gyrsiau o'n hystafell dywyll ar y llawr uchaf, sydd â chyfleuster enchwyddo 8-bae a all ymdrin â negyddion o 35mm i fformat 6x7, mewn du a gwyn. Yr ydym ar hyn o bryd yn cynnig rhaglen gyffrous ac amrywiol sydd yn cynnwys: modiwlau City & Guilds, cyrsiau cyffredinol a gweithdai plant. Am fanylion pellach, dyddiadau a thaliadau, galwch heibio i Ffotogallery am daflen neu ffoniwch Hannah Justice-Mills ar (01222) 341667

## digwyddiadau addysgiadol

Mae'r rhaglen addysg yn rhan hanfodol o weithgareddau Ffotogallery, gyda phwyslais neilltuol ar ddatblygu cysylltiadau cryf ag ysgolion a cholegau. Os carech ddod â grwp o fyfyrwyr i arddangosfa neu ddigwyddiad ystafell-dywyll, neu os hoffech i'n Swyddog Datblygu Addysg ymweld â'ch ysgol neu'ch coleg i drafod posibilrwydd prosiect ffotograffig yn cysylltu â'r Cwricwlwm Addysg neu'ch cwrs neilltuol chi, cysylltwch â Hannah Justice-Mills yn Ffotogallery, os gwelwch yn dda.

## pwy ydym ni

Ffotogallery yw oriel flaenllaw Cymru sydd yn hyrwyddo'r celfyddydau ffotograffig. Bydd yr oriel yn trefnu rhaglen barhaus o arddangosfeydd a digwyddiadau addysgiadol yn canolbwyntio ar waith cyfoes a chelfyddyd ffotograffig blaen-cad Prydeinig ac Ewropeaidd. Bydd llawer o'r arddangosfeydd sy'n tarddu o'r oriel hon yn teithio i orielau, canolfannau celfyddyd a chanolfannau cymuned ledled Cymru, y DU ac Ewrop. At hynny, cynhyrchir cyhoeddiadau o'r safon uchaf fel atodiad i arddangosfeydd ddwywaith neu deirgwaith y flwyddyn. Mae Ffotogallery yn Gwmni Cyfyngedig drwy Warant ac yn Elusen Gofrestredig, a redir gan Fwrdd Rheoli a etholir o blith yr aelodaeth gan yr aelodaeth. Yn ychwanegol at yr incwm a enillir ganddi mae Ffotogallery yn derbyn cymorth blynyddol gan Gyngor Celfyddydau Cymru, Cyngor Sir De Morgannwg, a Chyngor Dinas Caerdydd.

## aelodaeth


Ymunwch fel aelod ystafell dywyll/oriel a chewch ddefnyddio ystafell dywyll Ffotogallery yn rheolaidd a derbyn gostyngiad ar y pris. Mae ar agor chwe diwrnod yr wythnos, Llun - Sadwrn 10am - 5.00pm a darperir pob cyfleuster ystafell-dywyll a chemigolion (ac eithrio datblygydd ffilm). Ar y llaw arall, gallech ymuno fel aelod oriel yn unig a derbyn hysbysrwydd rheolaidd drwy'r post, gwahoddiadau i ragolygon a fforymau aelodau, a 10% o ostyngiad ar ddarlithiau, seminarau, gweithdai ymarferol a llyfrau o siop lyfrau Ffotogallery. Dim ond aelodau gaiff ddefnyddio ein llyfrgell, cael benthyg fframiau yn rhad ac am ddim, a derbyn gostyngiad ar ein gwasanaeth fframio. Gwahoddir pob aelod i gyfranogi'n flynyddol drwy arddangos eu gwaith yn Fffotoannual, ac i fynychu'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a phleidleisio yno. Aelodaeth blynyddol: Aelodaeth Oriel £13.50/£7.50 consesiynol; Aelodau Ystafell Dywyll £25/£19.50 consesiynol.

## mynediad i'r anabl

Yn anffodus, ni all Ffotogallery gynnig cyfleusterau i ymwelwyr anabl ar hyn o bryd, ond bwriadwn adeiladu ramp cyn hir i hwyluso mynediad pobl anabl i'r llawr gwaelod Ffotogallery, yn amodol ar ganiatad cynllunio. Fodd bynnag, oherwydd cyfyngiadau'r adeilad ei hun, mae'n ddrwg gennym na fyddwn yn gallu cynnig esgynydd neu gymorth arall i ganiatau mynediad i rannau eraill o'r adeilad. Os carai ymwelwyr anabl wybod sut y gall Ffotogallery fod o gymorth mewn ffyrdd eraill, cysylltwch a Julie Evans, os gwelwch yn dda, ar (01222) 341667

## staff

Cyfarwyddydd: *Christopher Coppock*
Swyddog Datblygu Addysg: *Hannah Justice-Mills*
Gweinyddydd: *Julie Evans*
Siop Lyfrau a Chydgysylltydd Technegol: *Marc Arkless*
Siop Lyfrau a Chynorthwydd Cyhoeddusrwydd: *Rachel Bardett*
Gwirfoddolwyr Ffotogallery: *Derick Jones a Stephen Hippisley*




oriel ar agor
dydd mawrth- dydd sadwrn
10.30am - 5.30pm
mynediad yn rhad ac am ddim

sut mae dod o hyd i ni:
31 Heol Siarl
caerdydd CF1 4EA
tel: (01222) 341667
ffacs: (01222) 341672

ffotogallery

# winter programme

david levinthal

ffotoannual

picturing ourselves

art in time

clement cooper



october to march 95/96

## WINTER PROGRAMME 1995/96

### david levinthal: dark light

*14 october - 18 november 1995*

David Levinthal emerged during the 1980s as one of the major American contemporary artists working with photography. Like many of his generation Levinthal's pictures reject the idea of capturing reality and instead construct and re-invent the world in the studio. His photographs are vivid tableaux, in which toy figures re-enact scenes that draw heavily on Hollywood's images of mythic America. Through manipulation of light and focus, Levinthal swathes these miniature theatrical compositions in planes of colour and deep shadows that - like film - both mimic and dramatise reality. In his work the world becomes a haunting fiction combining childhood fantasies with adult nightmare. A Photographers' Gallery/London exhibition.



### ffotoannual 1995

*25 november - 23 december 1995*

Now in its fifteenth year, this regular feature of the Ffotogallery calendar has become a useful barometer to the state of independent photography in Wales, reflecting a diversity of photographic concerns, including documentary reportage, portraiture and constructed photography. The exhibition is open to all Ffotogallery members, who are able to submit up to four works, at least one of which will be selected by a prominent figure from the artworld. This year, **Colin Ford**, Director of the National Museums and Galleries of Wales will act as selector for Ffotoannual 1995. Colin was formerly Keeper at the National Museum of Photography, Film and Television in Bradford and has a long and distinguished association with photography. We are grateful once again to Leeds Photovisual for their continued sponsorship of this exhibition.

### picturing ourselves: school children in the frame

*6 january - 3 february 1996*

This exhibition is the culmination of a project established by NAGE, the National Association for Gallery Education as part of their innovative **Opt For Art** initiative which encourages all secondary school pupils at year nine stage to literally opt for art at GCSE, by offering an inspirational first hand experience of Art. *Picturing Ourselves* brings together a selection of photographic images produced by groups of children from Lewis Girls' School, Mid Glamorgan and

Cantonian High School, Cardiff. The works, studio constructions comprising of still life objects and models, look thematically at the portrait and are inspired by original paintings and sculpture from the National Museum and Galleries in Cardiff, as well as numerous examples drawn from contemporary photography. We are very grateful to Dave Daggers, the photographer who recorded the completed work in schools and presented a series of lectures on contemporary photography to over 400 school children.

## art in time: seton smith

*8 february - 17 february 1996*

Art in Time, a short international season of multi-media art in Cardiff organised by *Grey Suit* and the *Cardiff Institute of Higher Education* comes to Ffotogallery with a presentation of the acclaimed American artist, Seton Smith, now living and working in Paris. The large photographs she presents are often related to architecture, to furniture or to nature at its most architectural. Many of these prints are out of focus or reverberate with after-image effects, creating icons which tremble and glow with half-life. Among her many exhibitions, she has shown at the Musee d'Art Moderne de la Ville de Paris and at the Neuberger Museum in New York.

## clement cooper: us

*24 february - 30 march 1996*

The terms 'half-caste' and 'half-breed' are commonly used terms to describe people from a mixed-race background. These expressions



derive from a fear amongst both the black and white communities, that the mixing of races has a detrimental effect on cultural identity. Taking this contentious issue as his starting point, Clement Cooper a young photographer of mixed-race heritage, set out to compassionately record a number of acquaintances that he met during extensive visits to four cities in Britain during 1995,

including Liverpool, Bristol, Cardiff and his own home town of Manchester. The resulting exhibition, brings together a series of powerful portraits of Afro-Caribbean/British individuals between the ages of 5 and 30, in conjunction with a 40 minute CD soundtrack compiled by the photographer; this provides an oral history reflecting the diversity of feelings and thoughts of the photographer's subjects. The exhibition is a collaboration locally between Ffotogallery, Bute Town History & Arts Centre and Cardiff Bay Art Trust, and nationally with Open Eye Gallery/Liverpool, Viewpoint Gallery/Salford and Autograph, the Association of Black Photographers/London.

## ffotogallery bookshop

*open tuesday - saturday 10.30am - 5.30pm*

Arguably, the best specialist photographic bookshop outside of London. Ffotogallery's bookshop is the main supplier of photographic publications to a number of educational institutions and libraries across Britain, offering a competitive discount to educational institutions. We aim to provide a quality of customer care unrivalled in the city, including a fast and efficient mail order service, an excellent Out-of-Print booksearch service and the facility to look up and order not only books in print in the UK, but in America and Europe as well. Books can be ordered by phone, paid by credit card and sent to you by return. For futher details, please telephone Marc Arkless or Rachel Bardett on (01222) 665377.

## photography course and workshops

*throughout the year*

Offering a supportive and friendly environment for small groups and individuals, Ffotogallery now runs a variety of courses from our top floor darkroom, which provides an 8 enlarger bay facility accommodating negatives from 35mm to 6x7 format, in black & white. We are currently offering an exciting and varied on-going programme which includes; City & Guilds modules, general courses, and children's workshops. For further details, dates and fees please collect a leaflet from Ffotogallery or phone Hannah Justice-Mills on (01222) 341667.

## educational events

The education programme is a key component of Ffotogallery's activities, with particular emphasis on developing strong links with schools and colleges. If you would like to bring a group of students to an exhibition or a darkroom event, or would like our Education Development Officer to visit your school or college to discuss a potential photographic project linking in with the National Curriculum or your particular course, please contact Hannah Justice-Mills at Ffotogallery.

## who we are

Ffotogallery is the leading gallery in Wales promoting the photographic arts. The gallery organises an on-going programme of exhibitions and educational events concentrating on contemporary practice and vanguard British and European photographic art. Many of the self-originated exhibitions tour to galleries, art centres and community venues throughout Wales, Britain and Europe. In addition, high quality publications supplementing exhibitions are produced two or three times a year. Ffotogallery is a Company Limited by Guarantee and a Registered Charity, run by a Board of Management elected by and from its membership. In addition to earned income Ffotogallery receives annual support from the Arts Council of Wales, South Glamorgan County Council and Cardiff City Council.

## membership

Become a darkroom/gallery member and have regular access to Ffotogallery's darkroom at a discounted price, open six days a week, Monday - Saturday 10.00am - 5.00pm; all darkroom facilities & chemistry provided (excluding film developer). Alternatively, you could join just as a gallery member and receive regular mailings, invitations to previews and members' forums, and 10% discount on lectures, seminars, practical workshops and books from Ffotogallery's Bookshop. Members also have exclusive use of the library, have access to a free frame loan facility, and reduced rates on our framing service. All members are invited to participate annually through the exhibition of their work in *Ffotoannual* and to attend and vote at Annual General Meetings. Yearly membership: Gallery Members £13.50/£7.50 concessionary; Darkroom Members £25/£19.50 concessionary.

## disabled access

Unfortunately, Ffotogallery is currently unable to offer facilities for disabled visitors, but we will shortly be constructing a ramp to facilitate disabled access to the ground floor of Ffotogallery, subject to planning approval. However due to the constraints of the building we regret we will not be able to offer lift or assisted access to other parts of the building. If disabled visitors would like further information about how Ffotogallery may be able to provide alternative assistance, please contact Julie Evans on (01222) 341667.

## staff

Director: *Christopher Coppock*
Education Development Officer: *Hannah Justice-Mills*
Administrator: *Julie Evans*
Bookshop & Technical Co-ordinator: *Marc Arkless*
Bookshop & Publicity Assistant: *Rachel Bardett*
Ffotogallery Volunteers: *Derick Jones* & *Stephen Hippisley*




gallery open
tuesday - saturday
10.30am - 5.30pm
admission free

how to find us:
31 charles street
cardiff CF1 4EA
tel: (01222) 341667
fax: (01222) 341672